

Apêl Flynyddol Efe

Daeth yn amser i gyflwyno Apêl Flynyddol Cynllun Efe, sy'n cynnal Andrew Settatee yn weithiwr ieuencid Cristnogol yn mro Eco'r Wyddfa. Y nod yw cyflwyno'r Efyngyl i Fro'r Eco, a llythrennau cyntaf y geiriau hyn sy'n rhoi'r enw 'Efe' i ni.

Os medrwyd gyfrannu unrhyw swm, byddwn yn ddiolchgar iawn i chi. Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am waith Efe cysylltwch â'r Gweinidog. Mae sicciau i'w gwneud yn daladwy i 'Cynllun Efe'.

Cymdeithas Deiniolen

Yng Nghymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Mawrth 23 ceir sgwrs am 'Ddiogelwch yn y Cartref' gan Mr John Jones, Adran Safonau Masnach Cyngor Gwynedd.

Waunfawr

Yn festri Eglwys y Waun, Waunfawr nos Wener nesaf, Mawrth 27, ceir sgwrs am hanes Waunfawr a'r ardal gan Gareth Roberts. Dechreuir am 6.30 o'r gloch. Y tâl mnediad fydd £5 a bydd yr elw at Gych Meithrin Waunfawr.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 22

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Yr Oedfa Sefydli
yng Ngharmel Llanllechid

Mawrth 29 (Sul y Blodau)

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Ebrill 5 (Sul y Pasg)

Bore - Y Gweinidog
Nos - Y Parchg Dafydd Hughes

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mawrth 29: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch, y Parchg W R Williams.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mawrth 29: Mr John H Hughes am 10.00 o'r gloch a'r Parchg Cath Williams am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 29: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mawrth 29: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Am 2.00 o'r gloch, y Parchg Geraint Hughes.

CARMEL

Dydd Llun, Mawrth 23: Cynhelir y 'Dosbarth Gwau' yn y festri am 2.30 o'r gloch.

Nos Wener, Mawrth 27: Cynhelir 'Dwylo Pysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 29: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch, y Parchg Tecwyn Roberts.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mawrth 27: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Yr Oedfa Sefydli
yng Ngharmel Llanllechid

Mawrth 29 (Sul y Blodau)

10.00 a.m. - Mr John Hughes
11.15 a.m. - DIM YSGOL SUL
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Ebrill 5 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. - Oedfa
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 630 Dydd Sul, 22 Mawrth, 2015

Cuddio'r haul

Gormodedd fyddai dweud bod llygaid pawb ar yr haul fore Gwener, ond roedd canran dda o bobl y wlad hon yn gwyllo'r diffyg ar yr haul (neu'r eclips) mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Roeddwn i'n fy llongyfarch fy hun am lwyddo i wneud twll bychan mewn cerdyn A4 a chael adlewyrchiad o'r eclips ar ddalen o bapur. Ond roedd hynny cyn i mi weld rhai o'r lluniau a dynnwyd gan bobl oedd yn defnyddio offer pwrpasol.

Ond beth bynnag a welsom, a pha offer bynnag a ddefnyddiwyd, yr un peth a ddaliodd ein sylw oedd y lleuad yn cuddio'r haul. Doedd o ddim yn eclips llawn i ni yng Nghymru, ond roedd y lleuad yn cuddio rhan helaeth o'r haul, ac fe aeth bore braf braidd yn dywyll am sbel. Ond roedd ymhell o fod yn gwbl dywyll, ac mae'r ffaith ei bod yn dal mor olau er i'r haul bron fynd o'r golwg yn dangos mor rhyfeddol yw goleuni'r haul i ddechrau.

Pennod olaf yr Hen Destament sy'n dweud am y Meseia, 'Ond i chwi sy'n ofni fy enw y cyfyd haul cyfiawnder â meddyginiaeth yn ei esgyll' (Malachi 4:2). A phan ddaeth 'haul cyfiawnder' ym mherson Iesu Grist, roedd goleuni'r haul hwnnw wedi ei guddio i raddau helaeth. Gwir Fab Duw oedd y plentyn Iesu yn Nasareth, ond doedd hynny ddim yn amlwg i'w gymdogion. Doedd hynny ddim yn amlwg hyd yn oed yn ystod gweinidogaeth gyhoeddus Iesu. Y cwbl a welai'r rhelyw o bobl

oedd dyn cyffredin; ar y gorau, athro ac arweinydd poblogaidd. Roedd ei dduwdod wedi ei guddio rywsut oddi wrthynt. Wrth edrych arno, ni welai pobl ei fawredd a'i ogoniant. Roedd pobl yn medru edrych arno heb gael eu dallu gan ddisgleirdeb Duw. Roedd y disgleirdeb hwnnw wedi ei guddio, nid gan ddim o'r tu allan iddo'i hun ond ganddo ef ei hunan.

Yn gwbl fwriadol, daeth Iesu i'r byd gan guddio'i ogoniant oddi wrthym. Daeth Mab Duw atom gan ei dlodi ei hunan; daeth yn ddyn; daeth i ddiodeff ac i farw trosom ar Galfaria. Fe'i gwnaeth ei hun yn ddirmygedig er mwyn bod yn waredwr i ni. Eithriad oedd yr hyn a ddigwyddodd ar fynydd y Gweddnewidiad pan welodd tri o'i ddisgyblion 'ei wyneb fel yr haul a'i ddillad yn wyn fel y goleuni' (Mathew 17:2).

Tristwch pethau yw bod cymaint o bobl heddiw heb weld ei ogoniant, ac yn dal i ddweud nad yw Iesu ond dyn da ac athro ac arweinydd galluog. Ac nid oes esgus dros hynny gan fod y Beibl wedi dangos yn glir iawn i ni pwy yw Iesu Grist. Mae gennym ni dystiolaeth sicr y Beibl i berson Crist. Mae'r neges honno yn glir a diymwad. Mae'r eclips wedi hen fynd heibio, a'r Arglwydd Iesu Grist i'w weld yn glir. Ond mae'n rhaid edrych; mae'n rhaid derbyn y dystiolaeth amdano. A chaiff pawb sy'n gwneud hynny ryfeddu a chlodfori.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed
bendith Duw ar ein haddoliad.

Heno, Nos Sul, Mawrth 22

Yr Oedfa Sefydlu yng nghapel Carmel, Llanllechid am 5.00 o'r gloch

Oedfa Sefydlu'r Parchg John Pritchard yn weinidog eglwysi Bethlehem a Charmel.

Croeso i aelodau eglwysi'r Ofalaeth a chyfeillion yr eglwysi
i ddatlu'r Sefydlu ac i nodi ehangu'r Ofalaeth.

Bydd lluniaeth ysgafn yn y festri ar ôl yr oedfa.

Bws yn cychwyn o Ddeiniolen am 3.55 o'r gloch gan droi'n ôl yn Rhydfadog; ymlaen
wedyn i groeslon Racca erbyn 4.05; yna i Lanberis, gan droi'n ôl ger Rhes y Faenol
am 4.15, a dod trwy'r pentref gan aros yn y manau arferol. Pris y bws fydd £4.

Os ydych am ddod ar y bws rhwch wybod i Miss Dilys Mai Roberts yn Llanberis
neu Miss Marian Jones yn Neiniolen os gwelwch yn dda. A chofiwch roi gwybod
iddynt os byddwch wedi rhoi eich enw ac yna'n methu â dod am unrhyw reswm, rhag
i'r bws aros amdanoch yn ofer.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am
10.30 o'r gloch. Yn ystod yr oedfa bydd
Eleri a Llifon Foulkes, 7 Rhes y Faenol,
yn dod â dau o'u plant, Tirion a Lliwedd,
i'w bedyddio. Estynnwn groeso cynnes
i'w teulu a'u ffrindiau i'r oedfa gan
weddio am fendith Duw iddynt.

Bydd yr Ysgolion Sul yn Neiniolen am
10.15 o'r gloch, yn Llanllechid am 10.30
o'r gloch, ac yn Nhalybont am 10.00 o'r
gloch.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Heno, am 5.00 o'r gloch, cynhelir yr
Oedfa Sefydlu yn Llanllechid. Ceir y
manylion isod. Estynnir gwahoddiad i
bawb i'r oedfa. Diolch ymlaen llaw i
bawb a fydd yn cymryd rhan ac i bawb a
fu'n brysur yn paratoi ar gyfer yr oedfa
mewn unrhyw fodd. Boed bendith Duw
ar y cyfan a wneir yn ystod yr oedfa
heno.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynnes at bawb
sydd heb fod yn dda eu hiechyd.

Marwolaeth

Bu farw Mrs Annie Pritchard, 1 Ffordd
Padarn, Llanberis fore ddoe, dydd
Sadwrn, Mawrth 21, yn 90 mlwydd oed.
Diolch i bawb sydd wedi holi amdani
dros y dyddiau a'r wythnosau diwethaf.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Olga William
5 Rhes y Graig, Llanberis yn Capel
Coch ddydd Gwener, Mawrth 20 dan
arweiniad y Gweinidog. Cafwyd
teyrnged gan Mr John H Hughes a fu'n
sôn am Olga fel gwraig annwyl a chywir
a dibynadwy. Cydymdeimlwn o'r
newydd â'i phriod, John, ac â Cheryl a
Karen a'r holl deulu.

Pasg yn y Parc

Bydd diwrnod arbennig i deuluoedd ym
Mharc Glynllifon ddydd Sadwrn y Pasg,
Ebrill 4. Trefnir ar y cyd gan Gynllun Efe
a Trobwynt. Bydd gwahanol weithgar-
eddau, o 10.30 y bore hyd 1.00 y pwnn,
yn cynnwys Helfa Drysor, Crefft y Pasg,
a chyfle i ddysgu am wir ystyr y Pasg.
Pris y diwrnod fydd £2 i oedolion a £1 i
blant. Cewch ragor o fanylion gan
Andrew Settatree. Anfonwch e-bost at:
gosodcoeden@hotmail.com.

Cwrs Plant yn y Bala

Bydd Penwythnos Plant yr Ofalaeth yng
Ngholeg y Bala eleni o nos Wener hyd
ddydd Sul, Mai 15-17. Cewch ragor o
fanylion yn fuan. Edrychwch ymlaen at
amser da yno eto eleni.

Dydd Gweddi Efe

Cynhaliwyd Dydd Gweddi dan nawdd
Cynllun Efe yn Capel y Rhos, Llanrug
ddydd Llun diwethaf, Mawrth 16.
Dechreuwyd am 2.00 o'r gloch a bu cryn
fynd a dod rhwng hynny ac 8.00 o'r
gloch pan ddaeth y dydd i ben.

Yn ystod y dydd bu gwahanol bobl yn
sôn am waith yr Efengyl yn yr ardal, a
chafwyd cyfle i weddio dros y gwaith
mewn amrywiol sefyllfaoedd.

Diolch i bawb a gefnogodd y diwrnod.

Gŵyl Llanw

Cricieth

Ebrill 6-10

Bydd cyfle i addoli a dysgu am y Ffydd
yn yr ŵyl flynyddol hon sy'n cael ei
chynnal yn y Gogledd am y tro cyntaf
eleni, yng Nghricieth. Mae cannoedd o
bobl wedi mwynhau'r ŵyl ers iddi
gychwyn tua 6 blynedd yn ôl.

Dechrau nos Lun, Ebrill 6 gyda Dathliad
a neges gan Rhys Llwyd, Caernarfon.

O ddydd Mawrth hyd ddydd Iau, ceir
anerchiadau yn y bore gan Rhodri Glyn,
Llansannan. Bydd siaradwyr gwahanol
yn dathliadau bob nos. Bydd gwahanol
weithgareddau bob pwnn.

Manylion llawn yn www.llanw.org

**Mae croeso i bobl fynd i Llanw ar
gyfer un neu fwy o'r cyfarfodydd.**

Casgliad y Genhadaeth

Yn ystod mis Mawrth gwneir casgliad
blynyddol yn Capel Coch at Gronfa
Genhadol Chwiorydd, Eglwys Bresbyt-
eraidd Cymru. Gellir rhoi eich cyfraniad
i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r
casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel
arfer.